# Gosod cymal radioulnar distal cyfan newydd ar gyfer ansefydlogrwydd cymalau symptomatig neu arthritis

08 Tachwedd 2017

Prin yw'r dystiolaeth gadarn sy'n dangos pa mor dda y mae'r driniaeth hon yn gweithio a pha mor ddiogel ydyw. Gellir defnyddio'r driniaeth hon, ond dim ond pan fydd cleifion yn cael archwiliadau rheolaidd i weld pa mor dda y mae'n gweithio neu a yw wedi achosi problemau. Mae hyn oherwydd yr ansicrwydd ynghylch ei heffeithiau hirdymor a chymhlethdodau difrifol posibl.

Gall ansefydlogrwydd y cymal radioulnar distal (cymal sy'n rhan o'r arddwrn) gael ei achosi gan anaf, arthritis neu fethiant mewn llawdriniaeth flaenorol. Gall y cymal chwyddo a mynd yn boenus, sy'n aml yn cyfyngu ar symudiad y llaw, yn enwedig troi cledr y llaw i fyny ac i lawr, a chryfder y gafael. Gwneir y driniaeth hon drwy dynnu pen garddwrn yr wlna (un o esgyrn blaen y fraich) a gosod prosthesis metel yn ei le sydd hefyd yn cysylltu â phen garddwrn y radiws (asgwrn arall blaen y fraich). Y nod yw cynyddu sefydlogrwydd y cymal a gwella symudiad heb boen.

Gall NHS Choices fod yn fan da i gael gwybod mwy. Mae gan ganllawiau triniaethau ymyriadol NICE fwy o wybodaeth am driniaethau a sut rydym yn eu hasesu.

## A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?

Os cawsoch gynnig y driniaeth hon, dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol drafod yr hyn y mae'n ei olygu, a dweud wrthych am y risgiau a'r manteision. Dylent drafod eich opsiynau gyda chi, a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Gall eich teulu fod yn rhan o'r broses hefyd, os ydych yn dymuno. Dylai hyn oll ddigwydd cyn y byddwch yn cytuno (rhoi cydsyniad) i

© NICE 2017 All rights reserved. Subject to Notice of rights

gael y driniaeth. Dylech hefyd gael gwybod sut i gael rhagor o wybodaeth am y driniaeth. Darllenwch ragor am wneud penderfyniadau am eich gofal.

**Rhai cwestiynau i feddwl amdanynt**

- Beth yn union yw'r driniaeth hon?
- Beth yw'r manteision posibl? Pa mor debygol ydw i o'u cael?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgil-effeithiau? Pa mor debygol ydynt?
- Beth fydd yn digwydd os na fydd y driniaeth yn gweithio neu os aiff rhywbeth o'i le?
- Beth fydd yn digwydd os nad wyf eisiau'r driniaeth? A oes triniaethau eraill ar gael?

ISBN: 978-1-4731-2722-7

© NICE 2017 All rights reserved. Subject to Notice of rights